

## 2019 Rhif (Cy.)

### TRAFFIC FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A465  
(Llangiwa i Gylchfan Hardwick, Y  
Fenni, Sir Fynwy) (Cyfngiadau  
Cyflymder Dros Dro a Dim  
Goddiwedd) 2019

Gwnaed                            2 Gorffennaf 2019  
Yn dod i rym                  10 Gorffennaf 2019

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd yr A465, wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig a/neu ei wahardd ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

#### Enwi, Cychwyn a Dehongli

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Llangiwa i Gylchfan Hardwick, Y Fenni, Sir Fynwy) (Cyfngiadau Cyflymder Dros Dro a Dim Goddiwedd) 2019 a daw i rym ar 10 Gorffennaf 2019.

#### 2. Yn y Gorchymyn hwn:

- ystyr "cerbyd esempt" ("exempted vehicle") yw:  
(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrd 1984(2); a

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrd (Cyfngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd ethygl 2 o O.S. 1999/672, ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32), mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(2) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Trosedd Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Trosedd a'r Llysodd 2013 (p. 22) ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreleiddio 2015 (p. 20).

## 2019 No. (W.)

### ROAD TRAFFIC, WALES

The A465 Trunk Road (Llangiwa to  
Hardwick Roundabout,  
Abergavenny, Monmouthshire)  
(Temporary Speed Restrictions &  
No Overtaking) Order 2019

Made                            2 July 2019  
Coming into force              10 July 2019

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant length of the A465 Trunk Road, are satisfied that traffic on specified lengths of the trunk road should be restricted and/or prohibited because of works proposed on or near the road.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1), (4) and (7) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

#### Title, Commencement and Interpretation

1. The title of this Order is The A465 Trunk Road (Llangiwa to Hardwick Roundabout, Abergavenny, Monmouthshire) (Temporary Speed Restrictions & No Overtaking) Order 2019 and it comes into force on 10 July 2019.

#### 2. In this Order:

"exempted vehicle" ("cerbyd esempt") means:

- (a) any vehicle being used for the purposes described in section 87 of the Road Traffic Regulation Act 1984(2); and

(1) 1984 c.27; Section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c.26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, article 2 and Schedule 1, and paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006 (c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

(2) Section 87 was amended by the Fire and Rescue Services Act 2004 (c.21), Schedule 1, paragraph 55, the Serious Organised Crime and Police Act 2005 (c.15), Schedule 4, paragraph 42, the Crime and Courts Act 2013 (c.22), Schedule 8, paragraph 29(2) and the Deregulation Act 2015 (c.20), section 50(4) and (5).

- (b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmylion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—
- (i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu
  - (ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;
- ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw'r cyfnod sy'n dechrau am 09:30 o'r gloch ar 10 Gorffennaf 2019 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;
- ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw Cefnffordd yr A465 Casnewydd i'r Amwythig;
- ystyr “lluoedd arbennig” (“*special forces*”) yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnwl eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.
- (b) any vehicle being used for naval, military or air force purposes and being driven by a person for the time being subject to the orders of a member of the armed forces of the Crown, who is a member of the special forces—
- (i) in response, or for practice in responding, to a national security emergency by a person who has been trained in driving at high speeds; or
  - (ii) for the purpose of training a person in driving vehicles at high speeds;
- “special forces” (“*lluoedd arbennig*”) means those units of the armed forces the maintenance of whose capabilities is the responsibility of the Director of Special Forces or which are for the time being subject to the operational command of that Director;
- “the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A465 Newport to Shrewsbury Trunk Road;
- “works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means the period commencing at 09:30 hours on 10 July 2019 and ending when the temporary traffic signs are permanently removed.

## Cyfngiadau a Gwaharddiad

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

**4.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 10 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

**5.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn ar yr adegau hynny pan fo'r cyfngiad y cyfeirir ato yn erthygl 4 yn weithredol.

## Cymhwysô

**6.—(1)** Ni fydd y cyfngiadau a'r gwaharddiad yn erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau ac i'r graddau y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

(2) Nid yw unrhyw terfynau cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

## Atal dros Dro

**7.** Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu

## Restrictions and Prohibition

**3.** No person may, during the works period, drive any motor vehicle at a speed exceeding 40 miles per hour on the lengths of the trunk road specified in Schedule 1 to this Order.

**4.** No person may, during the works period, drive any motor vehicle to proceed at a speed exceeding 10 miles per hour on the length of the trunk road specified in Schedule 2 to this Order.

**5.** No person may, during the works period, use or permit the use of a vehicle in such a way that it overtakes any other vehicle on the length of the trunk road specified in Schedule 2 to this Order during such times as the restriction referred to in article 4 is in operation.

## Application

**6.—(1)** The restrictions and prohibition in articles 3, 4 and 5 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

(2) No speed limits imposed by this Order apply to an exempted vehicle.

## Suspension

**7.** Any statutory provisions restricting the speed of vehicles on the lengths of the trunk road specified in the Schedules to this Order are suspended during such

ar gyflymder cerbydau ar y darnau perthnasol o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodleni wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiadau a bennir yn erthyglau 3 a 4 yn weithredol.

### Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

**8.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y

2 Gorffennaf 2019

*Richard Morgan*  
Pennaeth Cynllunio, Rheoli Asedau a Safonau  
Llywodraeth Cymru

times as the restrictions specified in articles 3 and 4 are in operation.

### Duration of this Order

**8.** The maximum duration of this Order is 18 months.

Signed under authority of the Minister for Economy and Transport, one of the Welsh Ministers.

Dated the

2 July 2019

## YR ATODLENNI

### ATODLEN 1 Terfyn Cyflymder 40 mya Dros Dro

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 97 o fetrau i'r de-orllewin o ganolbwyt y mynediad i'r annedd a elwir Crossing Cottage, ger Llangiwa hyd at bwynt 435 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwyt cyffordd Wern Gifford, ger Pandy.

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 330 o fetrau i'r de-orllewin o ganolbwyt cyffordd Wern Gifford, ger Pandy hyd at bigyn gogleddol yr ynys draffig wrth gyffordd yr A465/A40 ger Cylchfan Hardwick, Y Fenni.

### ATODLEN 2 Terfyn Cyflymder 10 mya Dros Dro a Dim Goddiweddyl

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 97 o fetrau i'r de-orllewin o ganolbwyt y mynediad i'r annedd a elwir Crossing Cottage, ger Llangiwa hyd at bigyn gogleddol yr ynys draffig wrth gyffordd yr A465/A40 ger Cylchfan Hardwick, Y Fenni.

## SCHEDULES

### SCHEDULE 1 Temporary 40 mph Speed Limit

The length of the trunk road that extends from a point 97 metres south-west of the centre-point of the access to the dwelling known as Crossing Cottage, near Llangiwa to a point 435 metres north-east of the centre-point of the Wern Gifford junction, near Pandy.

The length of the trunk road that extends from a point 330 metres south-west of the centre-point of the Wern Gifford junction, near Pandy to the northern tip of the traffic island at the A465/A40 junction, near Hardwick Roundabout, Abergavenny.

### SCHEDULE 2 Temporary 10 mph Speed Limit & No Overtaking

The length of the trunk road that extends from a point 97 metres south-west of the centre-point of the access to the dwelling known as Crossing Cottage, near Llangiwa to the northern tip of the traffic island at the A465/A40 junction, near Hardwick Roundabout, Abergavenny.

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A465  
(LLANGIWA I GYLCHFAN HARDWICK, Y  
FENNI, SIR FYNWY) (CYFYNGIADAU  
CYFLYMDER DROS DRO A DIM  
GODDIWEDDYD) 2019**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A465, neu gerllaw iddi, rhwng Llangiwa a Chylchfan Hardwick, Y Fenni, Sir Fynwy.

Effaith y Gorchymyn yw gwneud y canlynol dros dro:

- i. gosod terfyn cyflymder o 40 mya ar y darnau o'r A465 a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn; a
- ii. gosod terfyn cyflymder o 10 mya a gwahardd goddiweddyd yn ystod gwaith confoi ar y darn o'r A465 a ddisgrifir yn Atodlen 2.

Disgwyli'r y bydd y cyfyngiadau a'r gwaharddiad dros dro yn weithredol yn ystod y dydd (09:30 – 15:30 o'r gloch) o 10 – 14 Gorffennaf 2019 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol. Efallai y bydd rhaid i rywfaint o waith gael ei wneud dros nos (20:00-06:00 o'r gloch) os ceir problemau â thagfeydd traffig yn ystod y dydd.

Dim ond yn ystod y dyddiadau a bennir uchod y disgwyli'r i'r Gorchymyn arfaethedig fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar <https://gweddill.llyw.cymru/legislation/subordinate>:  
(Dethol: Deddfwriaeth/ Is-ddeddfwriaeth/ Offerynnau statudol lleol/ Gorchmynion traffig dros dro/ 2019).

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmyntion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**J SADDLER**  
Trafnidiaeth  
Llywodraeth Cymru

**THE A465 TRUNK ROAD (LLANGUA TO  
HARDWICK ROUNDABOUT,  
ABERGAVENNY, MONMOUTHSHIRE)  
(TEMPORARY SPEED RESTRICTIONS & NO  
OVERTAKING) ORDER 2019**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A465 trunk road between Llangua and Hardwick Roundabout, Abergavenny, Monmouthshire.

The effect of the Order is to temporarily:

- i. impose a 40 mph speed limit on the lengths of the A465 described in Schedule 1 to this Notice; and
- ii. impose a 10 mph speed limit and prohibit overtaking during convoy working on the length of the A465 described in Schedule 2.

The temporary restrictions and prohibition are expected to operate during the daytime (09:30 – 15:30 hours) from 10 – 14 July 2019 or until the temporary traffic signs are permanently removed. Some works may have to be carried out overnight (20:00 – 06:00 hours) if there are problems with traffic congestion during the day.

Although the Order is only expected to operate during the dates specified above it will remain valid for a maximum period of 18 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at <https://gweddill.gov.wales/legislation/subordinate>  
(Select: Local Statutory Instruments/ Temporary Traffic Orders/ 2019).

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**J SADDLER**  
Transport  
Welsh Government

## **YR ATODLENNI**

### **ATODLEN 1**

#### **Terfyn Cyflymder 40 mya Dros Dro**

Y darn o gefnffordd yr A465 sy'n ymestyn o bwynt 97 o fetrau i'r de-orllewin o ganolbwyt y mynediad i'r annedd a elwir Crossing Cottage, ger Llangiwa hyd at bwynt 435 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwyt cyffordd Wern Gifford, ger Pandy.

Y darn o gefnffordd yr A465 sy'n ymestyn o bwynt 330 o fetrau i'r de-orllewin o ganolbwyt cyffordd Wern Gifford, ger Pandy hyd at bigyn gogleddol yr ynys draffig wrth gyffordd yr A465/A40 ger Cylchfan Hardwick, Y Fenni.

### **ATODLEN 2**

#### **Terfyn Cyflymder 10 mya Dros Dro a Dim Goddiweddyd**

Y darn o gefnffordd yr A465 sy'n ymestyn o bwynt 97 o fetrau i'r de-orllewin o ganolbwyt y mynediad i'r annedd a elwir Crossing Cottage, ger Llangiwa hyd at bigyn gogleddol yr ynys draffig wrth gyffordd yr A465/A40 ger Cylchfan Hardwick, Y Fenni.

## **SCHEDULES**

### **SCHEDULE 1**

#### **Temporary 40 mph Speed Limit**

The length of the A465 trunk road that extends from a point 97 metres south-west of the centre-point of the access to the dwelling known as Crossing Cottage, near Llangua to a point 435 metres north-east of the centre-point of the Wern Gifford junction, near Pandy.

The length of the A465 trunk road that extends from a point 330 metres south-west of the centre-point of the Wern Gifford junction, near Pandy to the northern tip of the traffic island at the A465/A40 junction, near Hardwick Roundabout, Abergavenny.

### **SCHEDULE 2**

#### **Temporary 10 mph Speed Limit & No Overtaking**

The length of the A465 trunk road that extends from a point 97 metres south-west of the centre-point of the access to the dwelling known as Crossing Cottage, near Llangua to the northern tip of the traffic island at the A465/A40 junction, near Hardwick Roundabout, Abergavenny.